Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Swydd y Gwasanaethau Proffesiynol**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth:** | Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg |
| **Teitl y Swydd:** | Swyddog Marchnata, Cyfathrebu a Rheoli Data – Y Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol |
| **Adran/Pwnc:** | Ffiseg – Y Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol |
| **Cyflog:** | Gradd 7: £34,610 to £38,784 per annum |
| **Oriau Gwaith:** | Amser llawn - 35 awr yr wythnos |
| **Nifer y Swydd:** | 1 |
| **Contract:** | Rôl am gyfnod penodol o deunaw mis |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws y Bae |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Mae Prifysgol Abertawe wedi dechrau ehangu'n sylweddol ei hymdrechion ym maes Gwyddoniaeth a Pheirianneg Lled-ddargludyddion a arweinir drwy'r Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol (CISM) newydd – gweledigaeth am ddegawd gwerth £90M gan gynnwys cyfleuster Ymchwil, Datblygu ac Arloesi newydd a phwrpasol y buddsoddwyd £55M ynddo sy'n canolbwyntio ar y diwydiant. CISM yw'r ganolfan gyntaf o'i bath i integreiddio'n llawn saernïo, dadansoddi a phrofi ar lefel deunyddiau a dyfeisiau ar draws llwyfannau lled-ddargludyddion prif ffrwd a rhai sy'n dod i'r amlwg ac mae'n ymateb uniongyrchol i anghenion y diwydiant lled-ddargludyddion rhanbarthol sy'n ehangu'n gyflym, a'n gweledigaeth a rennir o economi weithgynhyrchu ffyniannus a modern yng Nghymru.<br><br>Mae portffolio CISM, sy'n werth mwy nag £80M ar hyn o bryd, yn cwmpasu ystod amrywiol o gyllid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, byd diwydiant, a sawl elfen o gyllid preifat a chyhoeddus gan gynnwys Cronfa Her y Strategaeth Ddiwydiannol, yr EPSRC, Innovate UK, Sefydliad Wolfson, a Sefydliad Henry Royce. Mae'r portffolio hwn yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth allweddol CISM sef i) Synwyryddion ac Optoelectroneg; ii) Ynni Effeithlon, Colled Isel a Microelectroneg; iii) Lled-ddargludyddion ar gyfer Technoleg y Gofod a iv) ymdrech newydd mewn Cyfathrebu THz. Yn benodol, mae CISM yn bartner ym Mhrosiect Cam 1 y Gronfa Strength in Places, 'CS Connected' (SIPF), rhaglen Cyflymu Effaith yn Seiliedig ar Le Lled-ddargludyddion Cyfansawdd De Cymru ochr yn ochr â Phrifysgol Caerdydd, a Chanolfan Hyfforddiant Doethurol yr EPSRC a lansiwyd yn ddiweddar mewn Sgiliau Dyfodol Diwydiant Lled-ddargludyddion y DU (UK-SIFS); menter gyffrous gwerth £18.5M mewn ymchwil ôl-raddedig gyda Phrifysgol Leeds a 25 o bartneriaid diwydiannol. Mae CISM hefyd yn cynhyrchu incwm sylweddol o ffynonellau masnachol sy'n cynnig ystod o wasanaethau, o ddeori busnesau bach a chanolig hyd at ddarparu hyfforddiant, ymchwil a datblygu pwrpasol a hyd yn oed gweithgynhyrchu sypiau bach.<br><br>Bydd Swyddog Marchnata, Cyfathrebu a Rheoli Data CISM yn gyfrifol am gasglu a rheoli nifer o setiau data ac allbynnau, gan eu troi’n gynnwys ar gyfer sianeli cyfathrebu fel adroddiadau, cyflwyniadau a deunydd marchnata, gan gynnwys ar gyfer cyflwyniadau i asiantaethau ariannu. Bydd deiliad y rôl yn sicrhau cywirdeb, cyflawnrwydd a chyfanrwydd data CISM drwy gyflawni prosesau ansawdd data, dilysiadau a datrys problemau gan weithio ar draws portffolio CISM.<br><br>Prif Gyfrifoldebau:<br>1. Cydlynu cofnodi a dilysu holl ddata CISM gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol, cofnodion cyhoeddi, gwybodaeth ariannol a setiau data perfformiad cyfleusterau lluosog. |

| | |
|---|---|
| | 2. Gweithio ar draws y portffolio i sicrhau bod data'n cael ei gasglu'n rheolaidd â chywirdeb, uniondeb, a chydymffurfiaeth â rheoliadau diogelu data lle bo'n berthnasol.<br>3. Glanhau data'n rheolaidd a monitro metrigau ansawdd data, gan weithredu gwelliannau lle bo angen.<br>4. Gyda throsolwg o'r data, datblygu a gweithredu cynlluniau ac ymgyrchoedd cyfathrebu marchnata ar gyfer brand CISM.<br>5. Cydlynu gweithgarwch marchnata ar draws sianeli lluosog gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, sianeli penodol i sectorau a gwefan CISM (sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd).<br>6. Cefnogi cynllunio a chynnal ymweliadau, digwyddiadau, arddangosfeydd, gweminarau, presenoldeb mewn cynadleddau ac unrhyw weithgareddau hyrwyddo eraill.<br>7. Monitro effeithiolrwydd ymgyrchoedd a nodi cyfleoedd i wella.<br>8. Cynhyrchu adroddiadau a chrynodebau perfformiad i gofnodi a chyfleu cyflawniadau CISM ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol, gan gynnwys i'w cyflwyno i asiantaethau ariannu. |
| **Dylestwyddau Cyffredinol** | 9. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>10. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>11. Arwain ar wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o'r proffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>12. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/y Gyfarwyddiaeth/y Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.<br>13. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'ch gweithgareddau beunyddiol i sicrhau bod arferion gwaith yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg gwneud cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br>Ein Gwerthoedd:<br><br>Rydym yn Broffesiynol<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein gallu creadigol, ein huniondeb a'n gallu i farnu i gyflwyno gwasanaethau a datrysiadau arloesol, effeithiol, ac effeithlon, sydd o ansawdd rhagorol.<br><br>Rydym yn Cydweithio<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br><br>Rydym yn Ofalgar<br>Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Manyldeb Person** | **<u>Meini Prawf hanfodol:</u>**<br>**Gwerthoedd:**<br>• Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<ul>
<li>Gallu gweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau'r cwsmeriaid.</li>
<li>Tystiolaeth o ddarparu ymagwedd ofalgar at yr holl gwsmeriaid gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol.</li>
</ul>
Cymwysterau:
<ul>
<li>Addysg hyd at lefel gradd neu wybodaeth gyffelyb.</li>
</ul>
Profiad:
<ul>
<li>Profiad o goladu, cofnodi a rheoli data yn gywir ac yn effeithlon.</li>
<li>Profiad o baratoi adroddiadau a chrynhoi canfyddiadau ar ddata ansoddol a meintiol.</li>
<li>Profiad o gydweithio â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i gyflawni canlyniadau llwyddiannus.</li>
<li>Profiad o gefnogi datblygu a chynnal ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu.</li>
<li>Profiad o greu a golygu cynnwys ar gyfer amrywiaeth o sianeli gan gynnwys gwefannau, cyfryngau cymdeithasol a deunydd print.</li>
<li>Profiad o gydlynu digwyddiadau, gweithgareddau hyrwyddo neu fentrau ymgysylltu â’r cyhoedd.</li>
</ul>
Gwybodaeth a Sgiliua:
<ul>
<li>Gallu profedig i gynnal lefel uchel o gywirdeb a sylw i fanylion.</li>
<li>Sgiliau trefnu da, y gallu i reoli amrywiaeth o dasgau gweinyddol ar yr un pryd a threfnu a blaenoriaethu llwyth gwaith personol a llwythi gwaith eraill a bodloni cerrig milltir.</li>
<li>Sgiliau cyfathrebu ardderchog a’r gallu i gyfleu syniadau cymhleth yn gryno ac yn effeithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd drwy gyfryngau gwahanol.</li>
<li>Lefel uchel o lythrennedd cyfrifiadurol ynghyd â gwybodaeth drylwyr am feddalwedd Microsoft Office.</li>
</ul>
<u>Meini Prawf Dymunol:</u>
<ul>
<li>Profiad yn y sector addysg uwch, a dealltwriaeth o'r metrigau a ddefnyddir i fesur ymchwil ac arloesi ym maes addysg uwch.</li>
<li>Profiad o systemau rheoli cynnwys (CMS) ac o adeiladu a rheoli systemau ar ywe.</li>
<li>Dealltwriaeth o fetrigau cyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid.</li>
<li>Profiad o ddefnyddio offer Deallusrwydd Artiffisial sydd ar gael yn gyffredin.</li>
<li>Gwybodaeth am y diwydiant lled-ddargludyddion yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang.</li>
</ul>
</td>
</tr>
<tr>
<td>Lefel Iaith Gymraeg</td>
<td>
Lefel 1 – ‘ychydig’ (ni fydd angen i chi allu siarad Cymraeg i gyflwyno cais am y rôl hon)<br>e.e. ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau. Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio neu ddysgu geiriau ac ymadroddion pob dydd sylfaenol iawn (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.
Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we’r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael <u>yma</u>.
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Additional Information** | Ymholiadau anffurfiol: Rhian Jones (Rhian.C.Jones@swansea.ac.uk)<br><br>**Caiff y swyddi hyn eu hariannu gan raglen Cyflymu Effaith ar Sail Lle Lled-ddargludyddion Cyfansawdd EPSRC De Cymru (SWCS PB-IAA).** |